
OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2015 Rhif 1484 (Cy. 163)

ADDYSG, CYMRU

**Rheoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau
Cymhwysol, Personau Cymhwysol
a Darpariaeth Atodol) (Cymru)
2015**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi'r cyrsiau cymhwysol a'r personau cymhwysol at ddibenion adran 5 o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 ("Deddf 2015") sy'n nodi bod rhaid i gynlluniau ffioedd a mynediad bennu terfynau ffioedd (neu ddarparu ar gyfer penderfynu ar derfynau ffioedd) mewn perthynas â chyrsiau cymhwysol bob blwyddyn academaidd.

Terfynau ffioedd yw'r uchafswm y bydd rhaid i berson cymhwysol ei dalu i sefydliad am ymgymryd â chwrs cymhwysol.

Mae adran 5(2)(b) o Ddeddf 2015 yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi disgrifiad o gyrtsiau cymhwysol, ac mae adran 5(5)(b) yn eu galluogi i ragnodi dosbarthiadau o bersonau yn bersonau cymhwysol.

Y cyrsiau cymhwysol a ragnodir gan reoliad 3 yw'r cyrsiau hynny sy'n gallu cael eu dynodi drwy reoliadau a wnaed o dan adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 pan fo blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs yn dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2012. Mae dynodi o dan y rheoliadau hynny yn golygu y caiff myfyrwyr wneud cais am gymorth i fyfyrwyr mewn cysylltiad ag ymgymryd â chwrs. Mae eithriad ar gyfer "cyrsiau penben" pan ddechreuodd y cwrs gwreiddiol cyn 1 Medi 2012.

Y personau cymhwysol a ragnodir gan reoliad 4 yw'r personau hynny sydd, ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd berthnasol, yn dod o fewn yr Atodlen, ac eithrio'r personau hynny nad ydynt yn gymwys i gael cymorth o dan Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2015 oherwydd

paragraffau penodol yn rheoliad 4 o'r Rheoliadau hynny, neu y mae ganddynt eisoes radd anrhydedd o sefydliad yn y DU.

Mae eithriad i'r myfyrwyr hynny sy'n trosglwyddo i gwrs cymhwysol o gwrs a ddechreuodd cyn 1 Medi 2012. Mae eithriadau mewn cysylltiad â gradd anrhydedd flaenorol i bersonau sy'n ymgymryd â chyrsgiau hyfforddiant cychwynnol athrawon, nad ydynt ond wedi cael y radd anrhydedd fel rhan o gwrs sengl y maent yn ymgymryd ag ef ar hyn o bryd neu pan fo'r cwrs yn arwain at gymhwyster gweithiwr cymdeithasol, meddyg, deintydd, milfeddyg neu bensaer.

Mae rheoliadau 5 a 6 yn gwneud darpariaeth atodol.

Mae rheoliad 5 yn egluro bod y geiriau 'a ddarperir yng Nghymru' mewn cysylltiad ag adrannau 5 a 17 o Ddeddf 2015 yn cynnwys llunio yng Nghymru y deunyddiau sy'n angenrheidiol i gyflwyno cwrs penodol neu i ddarparu addysg, hyd yn oed os nad yw'n ofynnol i fyfyrwyr fynychu'r sefydliad sy'n cyflwyno'r cwrs neu sy'n darparu'r addysg, er enghraifft cwrs dysgu o bell. Mae rheoliad 6 yn darparu bod y term "cynllun o dan Ddeddf 2004" ym mharagraff 29(3) o'r Atodlen i Ddeddf 2015 yn cynnwys cynllun arfaethedig y mae CCAUC yn ei gael o dan adran 34 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 cyn 1 Awst 2015 (y dyddiad y daw'r paragraff hwnnw i rym) ond sy'n cael ei gymeradwyo gan CCAUC ar ôl y dyddiad hwnnw yn dilyn adolygiad o dan reoliadau 11 i 18 o Reoliadau Ffioedd Myfyrwyr (Cynlluniau wedi eu Cymeradwyo) (Cymru) 2011.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Is-adran Addysg Uwch, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

2015 Rhif 1484 (Cy. 163)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg Uwch (Cyrsgau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) 2015

Gwnaed 7 Gorffennaf 2015

*Gosodwyd gerbron Cynulliad
Cenedlaethol Cymru* 9 Gorffennaf 2015

Yn dod i rym 31 Gorffennaf 2015

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 5(2)(b), 5(5)(b), 55(2) a 58(3) o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015(1), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg Uwch (Cyrsgau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) 2015 a deuant i rym ar 31 Gorffennaf 2015.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

mae i “athro cymwysedig neu athrawes gymwysedig” yr ystyr a roddir i “qualified teacher” yn adran 132(1) o Ddeddf Addysg 2002(2);

ystyr “cwrsg addysg uwch” (“*course of higher education*”) yw cwrsg sy'n dod o fewn paragraff 1 o Atodlen 6 i Ddeddf Diwygio Addysg 1988(3);

mae “cwrsg ar gyfer hyfforddiant cychwynol athrawon” (“*course for the initial training of*

(1) 2015 decc 1.
(2) 2002 p. 32.
(3) 1988 p. 40.

teachers”) yn cynnwys cwrs o’r fath sy’n arwain at radd gyntaf;

ystyr “cwrs blaenorol” (“*preceding course*”) yw cwrs a grybwyllir ym mharagraff 2 neu 3 o Atodlen 2 i Reoliadau 2015 neu gwrs ar gyfer gradd sylfaen neu gwrs ar gyfer hyfforddiant cychwynnol athrawon y mae person (gan ddiystyru unrhyw wyliau yn y cyfamser) yn peidio â’i fynychu yn union cyn dechrau mynychu cwrs penben;

mae i “cwrs penben” (“*end-on course*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 2(1) o Reoliadau 2015;

ystyr “cwrs sengl” (“*single course*”) yw cwrs y mae rheoliad 5(6) o Reoliadau 2015 yn gymwys iddo ac sy’n dod o fewn y disgrifiad o gwrs yn y rheoliad hwnnw;

ystyr “cymhwyster cyfwerth neu is” (“*equivalent or lower qualification*”) yw cymhwyster y penderfynir gan Weinidogion Cymru yn unol â pharagraff (2) ei fod yn gymhwyster cyfwerth neu is;

ystyr “Deddf 2004” (“*the 2004 Act*”) yw Deddf Addysg Uwch 2004(1);

ystyr “Deddf 2015” (“*the 2015 Act*”) yw Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015; ac

ystyr “Rheoliadau 2015” (“*the 2015 Regulations*”) yw Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrrwyr) (Cymru) 2015(2).

(2) Caiff Gweinidogion Cymru benderfynu bod cymhwyster yn gymhwyster cyfwerth neu is—

- (a) os oes gan y person gymhwyster addysg uwch o sefydliad yn y Deyrnas Unedig; a
- (b) os yw’r cymhwyster y cyfeirir ato yn is-baragraff (a) ar lefel academiaidd sy’n gyfwerth i gymhwyster y mae’r cwrs cyfredol yn arwain ato neu’n uwch na’r cymhwyster hwnnw.

Disgrifiad rhagnodedig o gwrs cymhwysol

3.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2), (3) a (4), cwrs cymhwysol at ddiben adran 5(2)(b) o Ddeddf 2015 yw cwrs addysg uwch sy’n gallu cael ei ddynodi drwy reoliadau a wnaed o dan adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(3) (ni waeth pa un a yw’r sefydliad sy’n darparu’r cwrs yn cael ei gyllido’n gyhoeddus at ddibenion y rheoliadau hynny).

(2) Nid yw cwrs yn gwrs cymhwysol os dechreuodd blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs cyn 1 Medi 2012.

(3) Nid yw cwrs yn gwrs cymhwysol—

(1) 2004 p. 8.
(2) O.S. 2015/54 (Cy. 5).
(3) 1998 p. 30.

- (a) os yw'n gwrs penben; a
- (b) os nad oedd y cwrs blaenorol yn gwrs cymhwysol oherwydd paragraff (2).

(4) Nid yw cwrs yn gwrs cymhwysol os yw'n gwrs rhan-amser.

Disgrifiad rhagnodedig o berson cymhwysol

4.—(1) Mae person cymhwysol a ragnodir at ddibenion adran 5(5) o Ddeddf 2015 yn berson sy'n dod o fewn yr Atodlen ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd, ac eithrio—

- (a) person nad yw'n gymwys i gael cymorth o dan Reoliadau 2015 oherwydd rheoliad 4(3)(c), (d), (e) neu (f) o'r Rheoliadau hynny; neu
- (b) person a grybwyllir ym mharagraffau (2), (3), neu (8).

(2) Yn ddarostyngedig i'r eithriadau ym mharagraffau (4), (5), (6) a (7), nid yw person yn berson cymhwysol—

- (a) os oes gan y person gymhwyster addysg uwch; a
- (b) os yw'r cwrs cymhwysol yn arwain at gymhwyster sy'n gymhwyster cyfwerth neu is.

(3) Nid yw person yn berson cymhwysol—

- (a) os yw'r person yn rhoi'r gorau i gwrs ("y cwrs cyntaf") nad yw'n gwrs cymhwysol;
- (b) gan ddiystyru unrhyw wyliau yn y cyfamser, os yw'r person yn mynychu ar unwaith gwrs arall sy'n gwrs cymhwysol; ac
- (c) os nad oedd y cwrs cyntaf yn gwrs cymhwysol oherwydd rheoliad 3(2).

(4) Nid yw paragraff (2) yn gymwys—

- (a) pan fo'r cwrs cymhwysol yn gwrs ar gyfer hyfforddiant cychwynnol athrawon;
- (b) pan na fo hyd y cwrs yn hwy na dwy flynedd (mynegir hyd cwrs rhan-amser fel hyd y cwrs llawnamser cyfatebol); ac
- (c) pan na fo'r person cymhwysol yn athro cymwysedig neu'n athrawes gymwysedig.

(5) Nid yw paragraff (2) yn gymwys mewn cysylltiad ag unrhyw ran o gwrs sengl—

- (a) pan fo'r cwrs sengl yn arwain at radd anrhydedd yn cael ei rhoi i'r person cymhwysol gan sefydliad yn y Deyrnas Unedig cyn y radd derfynol neu gymhwyster cyfatebol; a

- (b) pan fo'r unig radd anrhydedd sydd gan y person cymhwysol wedi ei chael fel rhan o'r cwrs sengl hwnnw.

(6) Nid yw paragraff (2) yn gymwys pan fo'r cwrs cymhwysol yn radd sylfaen.

(7) Nid yw paragraff (2) yn gymwys pan fo'r cwrs cymhwysol yn arwain at gymhwyster gweithiwr cymdeithasol, meddyg, deintydd, milfeddyg neu bensaer.

(8) Pan fo person, o ganlyniad i ddigwyddiad yn ystod blwyddyn academaidd, yn dod o fewn yr Atodlen yn ystod blwyddyn academaidd, nid yw'r person hwnnw yn berson cymhwysol mewn cysylltiad â'r flwyddyn academaidd y digwyddodd y digwyddiad perthnasol ynddi neu mewn cysylltiad ag unrhyw flwyddyn academaidd flaenorol.

Darpariaeth atodol

5.—(1) Mae'r geiriau “a ddarperir yng Nghymru” yn adran 5(2)(b) o Ddeddf 2015 yn cael effaith er mwyn cynnwys llunio, yng Nghymru, y deunyddiau sy'n angenrheidiol i gyflwyno cwrs cymhwysol penodol, ni waeth pa un a yw'n ofynnol i fyfyrwyr fynychu'r sefydliad sy'n darparu'r cwrs.

(2) Mae'r geiriau “a ddarperir yng Nghymru” yn adran 17(1) o Ddeddf 2015 yn cael effaith er mwyn cynnwys llunio, yng Nghymru, y deunyddiau sy'n angenrheidiol i ddarparu addysg, ni waeth pa un a yw'n ofynnol i fyfyrwyr fynychu sefydliad i gael yr addysg honno.

6. At ddibenion paragraff 29(3) o'r Atodlen i Ddeddf 2015, mae cynllun o dan Ddeddf 2004 yn cynnwys cynllun arfaethedig y mae CCAUC yn ei gael fel awdurdod perthnasol(1) o dan adran 34 o Ddeddf 2004 cyn 1 Awst 2015 ond nad yw'n cael ei gymeradwyo gan CCAUC tan ar ôl y dyddiad hwnnw yn dilyn adolygiad o dan reoliadau 11 i 18 o Reoliadau Ffioedd Myfyrwyr (Cynlluniau wedi eu Cymeradwyo) (Cymru) 2011(2).

Huw Lewis

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion
Cymru
7 Gorffennaf 2015

(1) Mae Rheoliadau Deddf Addysg Uwch 2004 (Awdurdod Perthnasol) (Dynodi) (Cymru) 2011 (O.S. 2011/658 (Cy. 96)) yn cyfeirio at hyn.

(2) O.S. 2011/884 (Cy. 128).

YR ATODLEN Rheoliad 4

1.—(1) At ddibenion yr Atodlen hon—

ystyr “aelod o deulu” (“*family member*”) yw—

- (a) mewn perthynas â gweithiwr ffin yr AEE, gweithiwr mudol o'r AEE, person hunangyflogedig ffin yr AEE neu berson hunangyflogedig o'r AEE—
 - (i) priod neu bartner sifil y person hwnnw;
 - (ii) disgynyddion uniongyrchol y person neu ddisgynyddion uniongyrchol priod neu bartner sifil y person—
 - (aa) sydd o dan 21 oed; neu
 - (bb) sy'n ddibynyddion i'r person neu'n ddibynyddion i briod neu bartner sifil y person; neu
 - (iii) perthnasau uniongyrchol dibynnol yn llinach esgynnol y person neu yn llinach esgynnol priod neu bartner sifil y person;
- (b) mewn perthynas â pherson cyflogedig Swisaidd, person cyflogedig ffin y Swistir, person hunangyflogedig ffin y Swistir neu berson hunangyflogedig Swisaidd—
 - (i) priod neu bartner sifil y person; neu
 - (ii) plentyn y person neu blentyn priod neu bartner sifil y person;
- (c) mewn perthynas â gwladolyn o'r UE sy'n dod o fewn Erthygl 7(1)(c) o Gyfarwyddeb 2004/38—
 - (i) priod neu bartner sifil y gwladolyn; neu
 - (ii) disgynyddion uniongyrchol y gwladolyn neu ddisgynyddion uniongyrchol priod neu bartner sifil y gwladolyn—
 - (aa) sydd o dan 21 oed; neu
 - (bb) sy'n ddibynyddion i'r gwladolyn neu'n ddibynyddion i briod neu bartner sifil y gwladolyn;
- (d) mewn perthynas â gwladolyn o'r UE sy'n dod o fewn Erthygl 7(1)(b) o Gyfarwyddeb 2004/38—
 - (i) priod neu bartner sifil y gwladolyn;
 - (ii) disgynyddion uniongyrchol y gwladolyn neu ddisgynyddion uniongyrchol priod neu bartner sifil y gwladolyn—
 - (aa) sydd o dan 21 oed; neu
 - (bb) sy'n ddibynyddion i'r gwladolyn neu'n ddibynyddion i briod neu bartner sifil y gwladolyn; neu

- (iii) perthnasau uniongyrchol dibynnol yn llinach esgynnol y gwladolyn neu yn llinach esgynnol priod neu bartner sifil y gwladolyn;
- (e) mewn perthynas â gwladolyn o'r Deyrnas Unedig, at ddibenion paragraff 9—
 - (i) priod neu bartner sifil y gwladolyn; neu
 - (ii) disgynyddion uniongyrchol y gwladolyn neu ddisgynyddion uniongyrchol priod neu bartner sifil y gwladolyn—
 - (aa) sydd o dan 21 oed; neu
 - (bb) sy'n ddibynyddion i'r gwladolyn neu'n ddibynyddion i briod neu bartner sifil y gwladolyn;

ystyr “Ardal Economaidd Ewropeaidd” (“*European Economic Area*”) yw'r ardal a ffurfir gan y Gwladwriaethau AEE;

ystyr “blwyddyn academaidd” (“*academic year*”) yw'r cyfnod o ddeuddeng mis sy'n dechrau ar 1 Ionawr, 1 Ebrill, 1 Gorffennaf neu 1 Medi yn y flwyddyn galendr y mae blwyddyn academaidd y cwrs o dan sylw yn dechrau ynddi, yn ôl pa un a yw'r flwyddyn academaidd honno yn dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr a chyn 1 Ebrill, ar neu ar ôl 1 Ebrill a chyn 1 Gorffennaf, ar neu ar ôl 1 Gorffennaf a chyn 1 Awst neu ar neu ar ôl 1 Awst ac ar neu cyn 31 Rhagfyr, yn y drefn honno;

ystyr “Cyfarwyddeb 2004/38” (“*Directive 2004/38*”) yw Cyfarwyddeb 2004/38/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 29 Ebrill 2004 ar hawliau dinasyddion yr Undeb ac aelodau o'u teulu i symud a phreswyllo'n rhydd yn nhiriogaeth yr Aelod-wladwriaethau(1);

ystyr “cyflogaeth” (“*employment*”) yw cyflogaeth lawnamser neu ran-amser;

ystyr “Cytundeb y Swistir” (“*Swiss Agreement*”) yw'r Cytundeb rhwng y Gymuned Ewropeaidd a'i Haelod-wladwriaethau, o'r naill ran, a'r Cydffederasiwn Swisaidd, o'r llall, ar Rydd Symudiad Personau a lofnodwyd yn Lwcsembwrg ar 21 Mehefin 1999(2) ac a ddaeth i rym ar 1 Mehefin 2002;

ystyr “ffoadur” yw person a gydnabyddir gan lywodraeth Ei Mawrhydi yn ffoadur o fewn ystyr “refugee” yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig sy'n ymwneud â Statws Ffoaduriaid a wnaed yng Ngenefa ar 28 Gorffennaf 1951(3) fel y'i hestynnwyd gan y Protocol iddo a ddaeth i rym ar 4 Hydref 1967(4);

(1) OJ L158, 30.04.2004, tt. 77-123.

(2) Gorch. 4904 ac OJ Rhif L114, 30.04.02, t. 6.

(3) Gorchmn. 9171.

(4) Gorchmn. 3906, (allan o brint; mae llungopiâu ar gael, yn rhad ac am ddim, oddi wrth yr Is-adran Cymorth i Fyfyrrwyr,

ystyr “gweithiwr” (“*worker*”) yw gweithiwr o fewn ystyr Erthygl 7 o Gyfarwyddeb 2004/38 neu Gytundeb yr AEE, yn ôl y digwydd;

ystyr “gweithiwr ffin yr AEE” (“*EEA frontier worker*”) yw gwladolyn o’r AEE—

- (a) sy’n weithiwr yn y Deyrnas Unedig; a
- (b) sy’n preswyllo yn y Swistir neu yn nhiriogaeth Gwladwriaeth AEE ac eithrio’r Deyrnas Unedig ac sy’n dychwelyd i’w breswylfa yn y Swistir neu’r Wladwriaeth AEE honno bob dydd neu o leiaf unwaith yr wythnos;

ystyr “gweithiwr mudol o’r AEE” (“*EEA migrant worker*”) yw gwladolyn o’r AEE sy’n weithiwr, ac eithrio gweithiwr ffin yr AEE, yn y Deyrnas Unedig;

ystyr “gweithiwr Twrcaidd” (“*Turkish worker*”) yw gwladolyn Twrcaidd—

- (a) sy’n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig;
a
- (b) sy’n cael, neu sydd wedi cael, ei gyflogi’n gyfreithlon yn y Deyrnas Unedig;

ystyr “gwladolyn o’r AEE” (“*EEA national*”) yw gwladolyn o Wladwriaeth AEE ac eithrio’r Deyrnas Unedig;

ystyr “gwladolyn o’r UE” (“*EU national*”) yw gwladolyn o Aelod-wladwriaeth o’r Undeb Ewropeaidd;

ystyr “hawl i breswyllo’n barhaol” (“*right of permanent residence*”) yw hawl sy’n codi o dan Gyfarwyddeb 2004/38 i breswyllo yn y Deyrnas Unedig yn barhaol heb gyfyngiad;

ystyr “person cyflogedig” (“*employed person*”) yw person cyflogedig o fewn ystyr Atodiad 1 i Gytundeb y Swistir;

ystyr “person cyflogedig ffin y Swistir” (“*Swiss frontier employed person*”) yw gwladolyn Swisaidd—

- (a) sy’n berson cyflogedig yn y Deyrnas Unedig;
a
- (b) sy’n preswyllo yn y Swistir neu yn nhiriogaeth Gwladwriaeth AEE ac eithrio’r Deyrnas Unedig ac sy’n dychwelyd i’w breswylfa yn y Swistir neu’r Wladwriaeth AEE honno bob dydd neu o leiaf unwaith yr wythnos;

ystyr “person cyflogedig Swisaidd” (“*Swiss employed person*”) yw gwladolyn Swisaidd sy’n berson cyflogedig, ac eithrio person cyflogedig ffin y Swistir, yn y Deyrnas Unedig;

ystyr “person hunangyflogedig” (“*self-employed person*”) yw—

- (a) mewn perthynas â gwladolyn o’r AEE, person sy’n hunangyflogedig o fewn ystyr Erthygl 7 o Gyfarwyddeb 2004/38 neu Gytundeb yr AEE, yn ôl y digwydd; neu
- (b) mewn perthynas â gwladolyn Swisaidd, person sy’n berson hunangyflogedig o fewn ystyr Atodiad 1 i Gytundeb y Swistir;

ystyr “person hunangyflogedig ffin yr AEE” (“*EEA frontier self-employed person*”) yw gwladolyn o’r AEE—

- (a) sy’n berson hunangyflogedig yn y Deyrnas Unedig; a
- (b) sy’n preswyllo yn y Swistir neu yn nhiriogaeth Gwladwriaeth AEE(1) ac eithrio’r Deyrnas Unedig ac sy’n dychwelyd i’w breswylfa yn y Swistir neu’r Wladwriaeth AEE honno bob dydd neu o leiaf unwaith yr wythnos;

ystyr “person hunangyflogedig ffin y Swistir” (“*Swiss frontier self-employed person*”) yw gwladolyn Swisaidd—

- (a) sy’n berson hunangyflogedig yn y Deyrnas Unedig; a
- (b) sy’n preswyllo yn y Swistir neu yn nhiriogaeth Gwladwriaeth AEE ac eithrio’r Deyrnas Unedig ac sy’n dychwelyd i’w breswylfa yn y Swistir neu’r Wladwriaeth AEE honno bob dydd neu o leiaf unwaith yr wythnos;

ystyr “person hunangyflogedig o’r AEE” (“*EEA self-employed person*”) yw gwladolyn o’r AEE sy’n berson hunangyflogedig, ac eithrio person hunangyflogedig ffin yr AEE, yn y Deyrnas Unedig;

ystyr “person hunangyflogedig Swisaidd” (“*Swiss self-employed person*”) yw gwladolyn Swisaidd sy’n berson hunangyflogedig, ac eithrio person hunangyflogedig ffin y Swistir, yn y Deyrnas Unedig;

ystyr “person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros” (“*person with leave to enter or remain*”) yw person (“P”)—

- (a) sydd—
 - (i) wedi gwneud cais am statws ffoadur ond sydd, o ganlyniad i’r cais hwnnw, wedi ei hysbysu’n ysgrifenedig gan berson sy’n gweithredu o dan awdurdod Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref y tybir ei bod yn iawn caniatáu i P ddod i

(1) Diffinnir “EEA State” yn Neddf Dehongli 1978 (p. 30).

mewn i'r Deyrnas Unedig neu aros yno, ar sail diogelwch dyngarol neu ganiatâd yn ôl disgrisiwn, er yr ystyrir nad yw'n gymwys i gael ei gydnabod yn ffoadur; neu

- (ii) heb wneud cais am statws ffoadur ond sydd wedi ei hysbysu'n ysgrifenedig gan berson sy'n gweithredu o dan awdurdod Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref y tybir ei bod yn iawn caniatáu i P ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu aros yno ar sail caniatâd yn ôl disgrisiwn;
- (b) y rhoddwyd caniatâd iddo i ddod i mewn neu i aros yn unol â hynny;
- (c) nad yw cyfnod ei ganiatâd i ddod i mewn neu i aros wedi dod i ben neu y mae'r cyfnod hwnnw wedi ei adnewyddu ac nad yw'r cyfnod y cafodd ei adnewyddu ar ei gyfer wedi dod i ben neu y mae apêl yn yr arfaeth (o fewn ystyr adran 104 o Ddeddf Cenedligrwydd, Mewnfudo a Lloches 2002)(1) mewn cysylltiad â'i ganiatâd i ddod i mewn neu i aros; a
- (d) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod er pan roddwyd caniatâd i P ddod i mewn neu aros;

ystyr "tiriogaethau tramor" ("*overseas territories*") yw Anguilla; Aruba; Bermwda; Tiriogaeth Antartig Prydain; Tiriogaeth Brydeinig Cefnfor India; Ynysoedd Prydeinig y Wryf; Ynysoedd Cayman; Ynysoedd Falkland; Ynysoedd Ffarøe; Polynesia Ffrengig; Tiriogaethau Deheuol ac Antartig Ffrainc; Mayotte; Kalaallit Nunaat (Greenland); Montserrat; Antilles yr Iseldiroedd (Bonaire, Curaçao, Saba, Sint Eustatius a Sint Maarten); Ynysoedd Pitcairn, Henderson, Ducie ac Oeno; Ynysoedd De Georgia a De Sandwich; St-Barthélemy; St Helena a Thiriogaethau Dibynnol (Ynys y Dyrchafael a Tristan de Cunha); St Pierre et Miquelon; Tiriogaeth Caledonia Newydd a Thiriogaethau Dibynnol; Ynysoedd Turks a Caicos a Wallis a Futuna;

ystyr "yr Undeb Ewropeaidd" ("*European Union*") yw'r diriogaeth a ffurfir gan Aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd fel y'i cyfansoddir o bryd i'w gilydd;

(1) Diwygiwyd adran 104 gan Ddeddf Lloches a Mewnfudo (Trin Ceiswyr etc.) 2004 (p. 19), Atodlenni 2 a 4; gan Ddeddf Mewnfudo, Lloches a Chenedligrwydd 2006 (p. 13), a chan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau'r Tribiwnlys Lloches a Mewnfudo 2010 (O.S. 2010/21), Atodlen 1.

mae i “wedi setlo” yr ystyr a roddir i “settled” gan adran 33(2A) o Ddeddf Mewnfudo 1971(1); ac

ystyr “yr Ynysoedd” (“*the Islands*”) yw Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw.

(2) At ddibenion yr Atodlen hon, mae “rhiant” (“*parent*”) yn cynnwys gwarcheidwad, unrhyw berson arall a chanddo gyfrifoldeb rhiant dros blentyn ac unrhyw berson a chanddo ofal am blentyn ac mae “plentyn” (“*child*”) i’w ddehongli yn unol â hynny.

(3) At ddibenion yr Atodlen hon, mae person (“P” yn y diffiniad hwn) i gael ei drin fel pe bai’n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig, y Deyrnas Unedig a’r Ynysoedd, yn y diriogaeth sy’n ffurfio’r Ardal Economaidd Ewropeaidd a’r Swistir, yn y diriogaeth sy’n ffurfio’r Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a’r tiriogaethau tramor, neu yn y diriogaeth sy’n ffurfio’r Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir, Twrci a’r tiriogaethau tramor pe bai P wedi bod yn preswyllo felly oni bai am y ffaith—

- (a) bod P;
- (b) bod priod neu bartner sifil P;
- (c) bod rhiant P; neu
- (d) yn achos perthynas uniongyrchol dibynnol yn y llinach esgynnol, fod plentyn P neu briod neu bartner sifil plentyn P,

yn cael, neu wedi cael, ei gyflogi dros dro y tu allan i’r ardal o dan sylw.

(4) At ddibenion is-baragraff (3), mae cyflogaeth dros dro yn cynnwys—

- (a) yn achos aelodau o lynges, byddin neu awyrlu rheolaidd y Goron, unrhyw gyfnod pan fônt yn gwasanaethu fel aelodau o’r lluoedd hynny y tu allan i’r Deyrnas Unedig;
- (b) yn achos aelodau o luoedd arfog rheolaidd Gwladwriaeth AEE neu’r Swistir, unrhyw gyfnod pan fônt yn gwasanaethu fel aelodau o’r lluoedd hynny y tu allan i’r diriogaeth sy’n ffurfio’r Ardal Economaidd Ewropeaidd a’r Swistir; ac
- (c) yn achos aelodau o luoedd arfog rheolaidd Twrci, unrhyw gyfnod pan fônt yn gwasanaethu fel aelodau o’r lluoedd hynny y tu allan i’r diriogaeth sy’n ffurfio’r Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a Thwrci.

(5) At ddibenion yr Atodlen hon, mae ardal—

- (a) nad oedd gynt yn rhan o’r Undeb Ewropeaidd neu’r Ardal Economaidd Ewropeaidd; ond
- (b) sydd, ar unrhyw adeg cyn i’r Rheoliadau hyn ddod i rym neu ar ôl hynny, wedi dod yn rhan

(1) Mewnosodwyd adran 33(2A) gan baragraff 7 o Atodlen 4 i Ddeddf Cenedligrwydd Prydeinig 1981 (p. 61).

o'r naill neu'r llall neu'r ddwy o'r ardaloedd hyn,

i gael ei hystyried fel pe bai bob amser wedi bod yn rhan o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd.

(6) At ddibenion yr Atodlen hon, mae person sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru, Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon neu yn yr Ynysoedd, am ei fod wedi symud o un o'r ardaloedd hynny at ddiben ymgymryd ag—

- (a) y cwrs presennol; neu
- (b) gan ddiystyru unrhyw wyliau yn y cyfamser, cwrs yr ymgymerodd y person ag ef yn union cyn ymgymryd â'r cwrs presennol,

i gael ei ystyried fel pe bai'n preswyllo fel arfer yn y lle y mae'r person wedi symud ohono.

Personau sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig

2.—(1) Person sydd, ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs—

- (a) wedi setlo yn y Deyrnas Unedig ac eithrio drwy fod wedi caffael yr hawl i breswyllo'n barhaol;
- (b) yn preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig;
- (c) wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs; a
- (d) yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), na fu ei breswyliaid yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd yn ystod unrhyw ran o'r cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff (c) yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser.

(2) Nid yw paragraff (d) o is-baragraff (1) yn gymwys i berson a gaiff ei drin fel pe bai'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd yn unol â pharagraff 1(3).

3. Person—

- (a) sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig yn rhinwedd y ffaith ei fod wedi caffael yr hawl i breswyllo'n barhaol ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd ar y cwrs;
- (b) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs;
- (c) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs; a
- (d) a oedd, mewn achos pan oedd y preswyliaid y cyfeirir ato yn is-baragraff (c) yn gyfan gwbl

neu'n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser, yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a'r tiriogaethau tramor yn union cyn y cyfnod o breswyllo y cyfeirir ato yn is-baragraff (c).

Ffoaduriaid ac aelodau o'u teulu

4.—(1) Person—

- (a) sy'n ffoadur;
- (b) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â phreswyllo felly er pan gafodd y person ei gydnabod yn ffoadur; ac
- (c) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

(2) Person—

- (a) sy'n briod neu'n bartner sifil i ffoadur;
- (b) a oedd yn briod neu'n bartner sifil i'r ffoadur ar y dyddiad y gwnaeth y ffoadur gais am loches;
- (c) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â phreswyllo felly er pan gafodd y ffoadur ganiatâd i aros yn y Deyrnas Unedig; a
- (d) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

(3) Person—

- (a) sy'n blentyn i ffoadur neu'n blentyn i briod neu bartner sifil ffoadur;
- (b) a oedd, ar y dyddiad y gwnaeth y ffoadur gais am loches, yn blentyn i'r ffoadur neu'n blentyn i berson a oedd yn briod neu'n bartner sifil i'r ffoadur ar y dyddiad hwnnw;
- (c) a oedd o dan 18 oed ar y dyddiad y gwnaeth y ffoadur gais am loches;
- (d) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â phreswyllo felly er pan gafodd y ffoadur ganiatâd i aros yn y Deyrnas Unedig; ac
- (e) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

Personau â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros ac aelodau o'u teulu

5.—(1) Person—

- (a) sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros; a

- (b) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs.

(2) Person—

- (a) sy'n briod neu'n bartner sifil i berson sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros;
- (b) a oedd yn briod neu'n bartner sifil i'r person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros ar y dyddiad y gwnaeth y person hwnnw—
 - (i) y cais am loches; neu
 - (ii) y cais am ganiatâd yn ôl disgrisiwn, pan na fo cais am loches wedi ei wneud; ac
- (c) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs.

(3) Person—

- (a) sy'n blentyn i berson sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros neu'n blentyn i briod neu bartner sifil person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros;
- (b) a oedd, ar y dyddiad y gwnaeth y person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros—
 - (i) y cais am loches; neu
 - (ii) y cais am ganiatâd yn ôl disgrisiwn, pan na fo cais am loches wedi ei wneud,
yn blentyn i'r person hwnnw neu'n blentyn i berson a oedd yn briod neu'n bartner sifil i'r person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros ar y dyddiad hwnnw;
- (c) a oedd o dan 18 oed ar y dyddiad y gwnaeth y person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros—
 - (i) y cais am loches; neu
 - (ii) y cais am ganiatâd yn ôl disgrisiwn, pan na fo cais am loches wedi ei wneud; a
- (d) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs.

Gweithwyr, personau cyflogedig, personau hunangyflogedig ac aelodau o'u teulu

6.—(1) Person—

- (a) sydd—
 - (i) yn weithiwr mudol o'r AEE neu'n berson hunangyflogedig o'r AEE;
 - (ii) yn berson cyflogedig Swisaidd neu'n berson hunangyflogedig Swisaidd;
 - (iii) yn aelod o deulu person a grybwyllir yn is-baragraff (i) neu (ii);

- (iv) yn weithiwr ffin yr AEE neu'n berson hunangyflogedig ffin yr AEE;
- (v) yn berson cyflogedig ffin y Swistir neu'n berson hunangyflogedig ffin y Swistir; neu
- (vi) yn aelod o deulu person a grybwyllir yn is-baragraff (iv) neu (v);
- (b) sydd, yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), yn preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs; ac
- (c) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a'r tiriogaethau tramor drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs.

(2) Nid yw paragraff (b) o is-baragraff (1) yn gymwys pan fo'r person yn dod o fewn paragraff (a)(iv), (v) neu (vi) o'r is-baragraff hwnnw.

7. Person—

- (a) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs;
- (b) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a'r tiriogaethau tramor drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs; ac
- (c) sydd â hawlogaeth i gael cymorth yn rhinwedd Erthygl 10 o Reoliad (EU) Rhif 492/2011 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 5 Ebrill 2011 ar ryddid gweithwyr i symud o fewn yr Undeb(1), fel y'i hestynnwyd gan Gytundeb yr AEE.

Personau sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig ac sydd wedi arfer hawl i breswyllo mewn man arall

8.—(1) Person—

- (a) sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig;
- (b) sydd wedi ymadael â'r Deyrnas Unedig ac wedi arfer hawl i breswyllo ar ôl iddo fod wedi setlo yn y Deyrnas Unedig;
- (c) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar y diwrnod pan fo tymor cyntaf y flwyddyn academiaidd gyntaf yn dechrau;
- (d) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a'r tiriogaethau tramor

(1) OJ Rhif L141, 27.05.2011, t. 1.

drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs; ac

- (e) a oedd, mewn achos pan oedd y preswiliad arferol y cyfeirir ato ym mharagraff (d) yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddibenion cael addysg lawnamser, yn preswyltio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir yn union cyn y cyfnod o breswyltio fel arfer y cyfeirir ato ym mharagraff (d).

(2) At ddibenion y paragraff hwn, mae person ("A" yn yr is-baragraff hwn) wedi arfer hawl i breswyltio—

- (a) pan fo A yn wladolyn o'r Deyrnas Unedig, yn aelod o deulu gwladolyn o'r Deyrnas Unedig at ddibenion Erthygl 7 o Gyfarwyddeb 2004/38 (neu ddibenion cyfatebol o dan Gytundeb yr AEE neu Gytundeb y Swistir) neu'n berson sydd â hawl i breswyltio'n barhaol, bod A wedi arfer hawl o dan Erthygl 7 o Gyfarwyddeb 2004/38 neu unrhyw hawl gyfatebol o dan Gytundeb yr AEE neu Gytundeb y Swistir mewn gwladwriaeth ac eithrio'r Deyrnas Unedig; neu
- (b) pan fo A wedi setlo yn y Deyrnas Unedig a'i fod â hawl i breswyltio'n barhaol, bod A yn mynd i'r wladwriaeth o fewn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir y mae A yn wladolyn ohoni neu y mae'r person y mae A yn aelod o deulu mewn perthynas ag ef yn wladolyn ohoni.

Gwladolion o'r UE

9.—(1) Person—

- (a) sydd naill ai—
 - (i) yn wladolyn o'r UE ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd ar y cwrs; neu
 - (ii) yn aelod o deulu person o'r fath;
- (b) sy'n ymgymryd â'r cwrs yn y Deyrnas Unedig;
- (c) sydd, yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), wedi bod yn preswyltio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a'r tiriogaethau tramor drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs; a
- (d) yn ddarostyngedig i is-baragraff (3), nad yw ei breswiliad arferol yn y diriogaeth berthnasol yn ystod unrhyw ran o'r cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff (c) wedi bod yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser.

(2) Nid yw paragraff (c) o is-baragraff (1) yn gymwys i aelod o deulu gwladolyn o'r UE—

(a) pan—

(i) fo'r gwladolyn hwnnw o'r UE yn wladolyn o'r Deyrnas Unedig sydd wedi arfer hawl i breswyllo yn nhiriogaeth Aelod-wladwriaeth arall o dan Erthygl 7(1) o Gyfarwyddeb 2004/38; neu

(ii) na fo'r gwladolyn hwnnw o'r UE yn wladolyn o'r Deyrnas Unedig; a

(b) pan fo'r gwladolyn hwnnw o'r UE wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a'r tiriogaethau tramor drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs.

(3) Nid yw paragraff (d) o is-baragraff (1) yn gymwys i berson a gaiff ei drin fel pe bai'n preswyllo fel arfer yn y diriogaeth berthnasol yn unol â pharagraff 1(3).

10.—(1) Person—

(a) sy'n wladolyn o'r UE ac eithrio gwladolyn o'r Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs;

(b) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs;

(c) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd yn union cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs; a

(d) a oedd, mewn achos pan oedd y preswyllydd arferol y cyfeirir ato ym mharagraff (c) yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser, yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a'r tiriogaethau tramor yn union cyn y cyfnod o breswyllo fel arfer y cyfeirir ato ym mharagraff (c).

(2) Pan fo gwladwriaeth yn ymaelodi â'r Undeb Ewropeaidd ar ôl diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs a bod person yn wladolyn o'r gwladwriaeth honno, trinnir y gofyniad ym mharagraff (a) o is-baragraff (1), sef bod rhaid bod yn wladolyn o'r UE ac eithrio gwladolyn o'r Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs, fel pe bai wedi ei fodloni.

Plant gwladolion Swisaidd

11. Person—

(a) sy'n blentyn i wladolyn Swisaidd ac sydd â hawlogaeth i gael cymorth yn y Deyrnas

Unedig yn rhinwedd Erthygl 3(6) o Atodiad 1 i Gytundeb y Swistir;

- (b) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs;
- (c) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a'r tiriogaethau tramor drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs; a
- (d) a oedd, mewn achos pan oedd y preswyliaid arferol y cyfeirir ato yn is-baragraff (c) yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser, yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir yn union cyn y cyfnod o breswyllo fel arfer y cyfeirir ato yn is-baragraff (c).

Plant gweithwyr Twrcaidd

12. Person—

- (a) sy'n blentyn i weithiwr Twrcaidd;
- (b) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs; ac
- (c) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir, Twrci a'r tiriogaethau tramor drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs.